

Cwpan Ysgolion Cymru Dan 18

Dyddiad: 7/5/2017

Lleoliad: Stadiwm Park Hall, Y Seintiau Newydd, Croesolttwallt

Cafwyd llawer o gyffro ar ein daith i'r rownd derfynol o'r Cwpan Ysgolion Cymru eleni ac roedd rhai o'r disgyblion yn edrych ymlen at eu hail rownd derfynol yn y tair bynedd diwethaf, tra bod eraill yn flasau'r profiad am y tro cyntaf.

Y daith i'r rownd derfynol.....

Braf iawn oedd gweld ein disgyblion yn gweithio'n galed i gyrraedd yr 16 olaf ar ôl buddugoliaethau yn erbyn Ysgol John Bright ac Ysgol Aberconwy, ac yn y proses yn chwarae pêl droed hyfryd ar y ffordd.

Nesaf oedd yr her o guro Ysgol Syr Huw Owen, gêm catref ac gyda'r torf yn cefnogiau hogiau, gorffennodd y gêm yn 7-2 i Ysgol Dyffryn Conwy gyda Aron Hughes a Sam Roberts yn sgorio 3 gôl yr un ac Owain Jones yn ychwanegu un at ei gyfrif. Cafodd yr hogiau llawer o glod gan Athro Syr Huw Owen am y ffordd a chwaraeodd ein disgyblion yn ystod y gêm ac roeddwn yn llawn haeddu't buddugoliaeth. Roedd Ysgol Dyffryn Conwy trwodd i'r wyth olaf yng Nghymru.

Taith oddi-gatref....

Gyda'r hogiau'n datblygu'n dda yn ystod y Cwpan, roedd amser am newid bach, cit newydd. Gyda 'Tatws Trading yn noddi'r cit coch newydd roedd y disgyblion yn barod am y daith i lawr i'r De yn erbyn Ysgol Bro Myrddin, cynhaliwyd y gêm yng Ngholeg Sir Gar ar gael 3G. Ar ôl y daith hir, cafodd yr hogiau dechrau da wrth sgorio hanner ffordd trwy'r hanner cyntaf gyda ergyd gan Sam Roberts o gig rhydd. Cychwynodd yr ail hanner yn debyg i'r hanner cyntaf, ac o fewn dim roedd Dyffryn Conwy 2-0 i fyny, diolch i Owain Jones. Ond roedd Ysgol Bro Myrddin ddim am rhoi ffidli yn y to mor hawdd a hyny ac llwyddon nhw i unioni'r sgôr cyn y chwiban olaf ac hefo 5 munud yn weddill, roedd y ddau Ysgol yn agos iawn i gipio'r buddugoliaeth on gorffennodd y gêm yn gyfartal ac i gigiau o'r smotyn oedd hi. Loui Harris, gôl-geidwad Ysgol Dyffryn Conwy oedd arwr y diwrnod wrth iddo arbed tair cic o'r smotyn yn olynol, ac gyda Owain Jones, Sam Roberts ac Aron Hughes yn rhwydo'u ergydion, roedd Ysgol Dyffryn Conwy ar eu ffordd i rownd cyn derfynol y cwpan ar ôl buddugoliaeth cofiadwy.

Ymlaen at y rownd cyn-derfynol gyda'r her o guro ein cymdogion agos, Ysgol y Creuddyn, eto oddi-catref. Cychwynodd y gêm gyda elfen o ansicrwydd a nerfusrwydd, Sam Roberts yn amlwg yn colled mawr yng nghanol cae i Ysgol Dyffryn Conwy, ac ella rhai o'r chwaraewyr eraill yn ymwybodol o bwysigrwydd y gêm. Cymerodd dibyn o amser cyn i'r hogiau setlo a dechrau chwarae, ac o hyn dech gôl cyntaf y gêm cyn hanner amser i roi Ysgol Dyffryn Conwy ar y blaen. Erbyn yr ail hanner, roedd Dyffryn Conwy yn mwynhau rhan fwyaf o mudiant y bêl a gorffennodd y gêm yn 4-1 gyda Sam Roberts, Aron Hughes ac Owain Jones (2) yn rhwydo.

Ymlaen at y rownd derfynol....

Roedd yr hogiau wedi bod yn aros am y diwrnod yma ers amser maith, gyda dechrau cynnar am 7 y bore o Ffordd Nebo cyrhaeddom yn stadiwm Park Hall ar amser ac yn barod i gystadlu am y cwpan yn erbyn Ysgol Whitchurch o Gaerdydd.

Braf iawn oedd gweld yr hogiau yn canu'r anthem genedlaethol o flaen y dorf cyn y gêm gyda parch ac angerdd. Cymerodd yr hogiau'r un angerdd ar y cae ac roedd yr ugain munud cyntaf yn cyfle i'r dau Ysgol i geisio datrys ei gilydd.

Disgynodd siawns agosa'r gêm i Dyffryn Conwy ar ôl cic corner gan Jac Parry, roedd y bêl yn adlamu ym mhob man yn y cwrt chwech llathen, gyda gôl geidwad Whitchurch yn ymateb yn sydyn i gadw'r sgôr yn gyfartal. Yn dilyn hwn cafodd y capten Sam Roberts siawn anhygoel gyda cic rhydd o bell fordd yn taro'r croesfar. Ar y llaw arall roedd Whitchurch hefyd yn edrych yn beryglus wrth wrthymosod, ond roedd amddiffyn Dyffryn Conwy yn gweithio'n galed i rwystro hyn.

Gyda'r ddau Ysgol yn ysu am gôl roedd rhaid i un cyfle cael ei rwydo, a disgynodd y cyfle yna i brif ymosodwr Whitchurch, yn dilyn gwaith da lawr yr asgell dde, disgynodd y bêl yn caredig at draed yr ymosodwr, ac nid oedd o'n mynd i fethu'r siawns trwy'i rhwydo yn erbyn Loui Harris yn gôl i Dyffryn Conwy. 1-0 i Whitchurch. Digon hawdd i hogia Dyffryn Conwy di-galoni, ond dangoson nhw eu bod ganddyn nhw digon o gallon ar ôl ac o fewn dim roeddynt wedi unioni'r sgôr gyda symudiad hyfryd yn caniatáu Owain Jones i fynd trwy un yn erbyn un yn erbyn gôl geidwad Whitchurch, dim ond un canlyniad oedd am digwydd. 1-1 gyda 15 munud yn weddill o'r hanner cyntaf.

Ymlaen at yr ail hanner a o'r chwiban cyntaf roedd Dyffryn Conwy bron ar y blaen, yn dilyn rhediad da Jac Parry ar yr asgell chwith disgynodd y bêl at Owain ond yn anffodus tarodd y bêl i mewn i ochr y rhwyd ac allan am cic gôl. Ni chymerodd llawer o amser i Dyffryn Conwy mynd ar y flaen, eto Owain Jones yn gorffen y symudiad i ffrwrdd gyda ergyd ffrwydrol i gornier gwaelod y rhwyd. 2-1 i Dyffryn Conwy. Gyda tensiwn yn adeiladu, roedd Whitchurch yn gwthio am gôl ac roedd amddiffyn Dyffryn Conwy yn gwneud eu gorau i gadw'n dyn ond nid oedd Dyffryn Conwy yn gallu cadw mudiant y bêl. Cafodd Whitchurch gwobr am eu gwaith caled gyda 15 munud o'r gêm i fynd. Ar ôl rhediad ffrwydrol lawr yr asgell dde, cafodd y bêl ei croesi'n sydyn ac yn anffodus, yn adlamu oddi wrth goes amddiffynwr Dyffryn Conwy ac heibio Loui Harris. 2-2.

Er fod y dau Ysgol yn gwthio am gôl roedd y ddau hefyd yn ofn o ildio cyn y chwiban olaf. Roedd y dau Ysgol wedi dangos llawer o galon ac ymdrech o fewn y 90 munud ac yn amlwg yn fraint i'w hysgolion.

Ymlaen at ciciau o'r smotyn.

Gyda Dyffryn Conwy yn barod wedi ennill un gêm ar c.o.s a Whitchurch hefyd yn ennill tri gêm ar c.o.s, roedd hwn am fod yn gystadleuaeth agos iawn.

Yn dilyn sawl cic cosb da ac arbediad campus gan y ddau gôl geidwad, roedd y sgôr yn 3-3 ac Whitchurch yn gwybod bydd y cic nesaf yn rhoi'r buddugoliaeth iddyn nhw, er ymdrechion Loui Harris yn y gôl, llwyddodd y chwaraewr Whitchurch i rwydo'r bêl at gornel uchaf y gôl i gipio'r cwpan.

Yn anffodus nid oedd Dyffryn Conwy yn fuddugol ar y diwrnod, ond trwy'r cwpan mae'n rhaid bod yn falch o'r hyn y maent wedi llwyddo. Bydd sawl disgybl o'r garfan yn barod i fynd eto blwyddyn nesaf, ac ella achos o trydydd amser yn lwcus bydd hi....pwy a wyr?